



Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

Cyfarwyddiaeth Adnoddau
Dynol ac Ystadau

Cynllun gweithredu bioamrywiaeth

ar gyfer yr Asiantaeth
Trwyddedu Gyrwyr a
Cherbydau (DVLA)



2025 i 2030



Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL



© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gov.uk

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn
GOV.UK

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn:
sustainability.team@dvla.gov.uk



Tim Moss, CBE

Crynodeb gweithredol

Mae'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) wedi ymrwymo i gynnal a gwella bioamrywiaeth ar draws ein hystâd. Cydnabyddir bioamrywiaeth fel dangosydd perfformiad amgylcheddol allweddol yn ein polisi amgylcheddol corfforaethol. Mae ein hymrwymiad parhaus yn adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddwn ar stiwardiaeth amgylcheddol o'r ystâd.

Ers 2013, mae DVLA yn cyhoeddi cynllun gweithredu bioamrywiaeth (CGB) ar gyfer yr ystâd. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu fframwaith cadarn sy'n tywys ein hymdrechion i gyflawni gwelliannau ystyrion mewn bioamrywiaeth o fewn ffiniau'r hystâd sydd wedi'i lleoli yn Ninas a Sir Abertawe. Mae'r fframwaith yn ein galluogi i asesu, cynllunio a gweithredu camau gweithredu yn systematig sy'n elwa cynefinoedd a rhywogaethau lleol yn uniongyrchol.

Mae rhifyn diweddaraf ein CGB wedi'i gynllunio i hyrwyddo cyflawniadau'r blynyddoedd blaenorol. Mae'n nodi targedau clir a phenodol i wella cynefinoedd a chefnogi rhywogaethau penodol a geir ar un o'r safleoedd. Drwy adeiladu ar ein llwyddiannau parhaus, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wireddu enillion bioamrywiaeth ychwanegol a sicrhau bod yr ystâd yn parhau i ddarparu manteision ecolegol gwerthfawr.

Mae'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth hwn yn ddatganiad cyhoeddus gan y DVLA o'i hamcanion bioamrywiaeth a'r dulliau y mae'n bwriadu eu cyflawni.

Byddem yn croesawu cyfranogiad priodol yng nghyflawniad y cynllun gan sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sydd â diddordeb.

Nodau ein CGB yw:



- sicrhau bod targedau cynefinoedd a rhywogaethau o adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Ymrwymadau Llywodraeth Wyrddu, a chynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol Abertawe yn cael eu trosi'n gamau gweithredu effeithiol ar yr ystâd
- ymrwymo i greu a gwella cynefinoedd ar draws yr ystâd
- datblygu partneriaethau effeithiol gyda staff a'r gymuned leol i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn y tymor hir
- codi ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn lleol o'r angen am gadwraeth bioamrywiaeth, a darparu canllawiau ar fioamrywiaeth
- sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn llawn drwy gydol gweithrediadau'r DVLA
- monitro ac adrodd ar gynnydd mewn cadwraeth bioamrywiaeth

Tim Moss, CBE

Prif Swyddog Gweithredol, DVLA
27 Mawrth 2026



Cynnwys

1. Bioamrywiaeth a DVLA – cyflwyniad

1.1. Cyflwyniad.....	6
1.2. Diffinio bioamrywiaeth	6
1.3. Pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth.....	7
1.4. Fframwaith cynllun gweithredu bioamrywiaeth.....	7
1.5. DVLA a bioamrywiaeth	8
1.6. Nodau cynllun gweithredu bioamrywiaeth DVLA.....	8

2. Proses CGB DVLA

2.1. Meincodi bioamrywiaeth.....	10
2.2. Gosod nodau, amcanion a dangosyddion.....	10
2.3. Gweithredu.....	10
2.4. Monitro ac adrodd yn ôl	10

3. Amodau sylfaenol

3.1. Trosolwg.....	12
3.2. Cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth blaenorol DVLA.....	12
3.3. Astudiaeth ddesg.....	12
3.4. Arolwg cynefinoedd.....	13
3.5. Arolwg rheoli coed	13
3.6. Arolygon rhywogaethau gwarchodedig a nodedig.....	13

4. CGB DVLA

4.1. Nodau.....	15
4.2. Cynefinoedd y DVLA.....	18
4.3. Rhywogaethau'r DVLA.....	21
4.4. Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu cymunedol y DVLA.....	25

5. Rhoi'r cynllun ar waith

5.1. Rolau a chyfrifoldebau	27
5.2. Monitro ac adolygu.....	27
5.3. Adrodd yn ôl	27

Atodiad A – Rhywogaethau planhigion a gofnodwyd	28
--	-----------

Atodiad B – Mapiau cynefinoedd a nodiadau targed	36
---	-----------



1.

Bioamrywiaeth a DVLA – cyflwyniad





1.1. Cyflwyniad

Mae DVLA yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ar draws ein hystâd. Amlygir hyn fel dangosydd perfformiad allweddol yn ein polisi amgylcheddol corfforaethol. Rydym yn paratoi a chyhoeddi ein cynllun gweithredu bioamrywiaeth (CGB) ers 2013. Dyma'r pumed rhifyn ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2025 i fis Mawrth 2030.

Rydym wedi cynnal arolygon biolegol o'r ystâd ac wedi nodi cynefinoedd a rhywogaethau a fyddai'n elwa o reolaeth neu gamau gweithredu penodol gan yr asiantaeth. Mae'r CGB yn nodi amcanion ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth ac yn manylu ar dargedau a chamau gweithredu er mwyn anelu at gyflawni'r amcanion hyn. Y bwriad yw integreiddio bioamrywiaeth fel y bo'n briodol i'n gweithgareddau, megis rhaglenni cynnal a chadw blynyddol a phrosiectau gwaith cyfalaf.

Bydd y cynllun gweithredu yn helpu i ddiogelu bioamrywiaeth ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Gobeithir y bydd gweithredu'r cynllun yn cyfrannu at gyflawni targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth CGB y DU fel y bo'n briodol.

Mae'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth yn cael ei esblygu'n gyson a bydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd hefyd.

1.2. Diffinio bioamrywiaeth

Ym 1992, yn Uwchgynhadledd y Ddaear yn Rio de Janeiro, diffiniwyd bioamrywiaeth gan y Confensiwn ar Fioamrywiaeth fel a ganlyn:

“Yr amrywioldeb ymhlith organebau byw o bob ffynhonnell, gan gynnwys ecosystemau daearol, morol a dyfrol a'r cymhlethdodau ecolegol y maent yn rhan ohonynt; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau ac amrywiaeth ecosystemau.”

Yn syml, bioamrywiaeth yw 'amrywiaeth bywyd' ac mae'n cwmpasu'r sbectrwm cyfan o organebau byw, gan gynnwys planhigion, adar, mamaliaid a phryfed. Mae'n cynnwys rhywogaethau cyffredin a phrin, yn ogystal â'r amrywiaeth enetig o fewn rhywogaethau. Mae bioamrywiaeth hefyd yn cyfeirio at gynefinoedd ac ecosystemau sy'n cynnal y rhywogaethau hyn.





1.3. Pwysigrwydd gwarchod bioamrywiaeth

Mae bioamrywiaeth yn adnodd hanfodol, ac mae'n rhaid cydnabod ei phwysigrwydd i'n bywydau ynghyd â'r ystod o fuddion y mae'n eu cynhyrchu, sy'n cynnwys:

- rheoleiddio'r amgylchedd naturiol – rheoleiddio'r hinsawdd, rheoli llifogydd, atafaelu carbon, puro dŵr, a pheillio
- darpariaeth adnoddau – bwyd, meddygaeth, ynni, a deunyddiau crai
- cefnogi'r prosesau ecolegol sylfaenol – cylchu maetholion, ffotosynthesis, a darparu cynefinoedd
- gwella iechyd a lles
- adnoddau addysgol, hamdden ac amwynderau



1.4. Fframwaith cynllun gweithredu bioamrywiaeth

Mae'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth hwn yn rhan o fframwaith bioamrywiaeth llawer ehangach sy'n cwmpasu lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol o gynllunio gweithredu a chadwraeth bioamrywiaeth.

Mae'r CGB wedi'i lunio gan gyfeirio at y ddeddfwriaeth cadwraeth natur berthnasol ganlynol a Fframwaith Bioamrywiaeth y DU y mae gwarchodaeth safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru yn deillio ohono, a'r ddeddfwriaeth cadwraeth natur berthnasol ganlynol:

- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau Cynefinoedd)
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'u diwygiwyd) (WCA)
- Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006 (Lloegr)
- Deddf Diogelu Moch Daeor 1992
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Fframwaith Bioamrywiaeth y DU ar ôl 2010 (2011-2020) (JNCC a Defra, 2012)
- Bioamrywiaeth 2020: Strategaeth ar gyfer bywyd gwyllt a gwasanaethau ecosystem Lloegr (Defra, 2011)
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (UKBAP)
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe 2005
- Cynllun Datblygu Lleol Abertawe 2010-2025

Eglurir cyd-destun a chymhwysedd pob eitem fel y bo'n briodol yn adrannau perthnasol yr adroddiad.



1.5. DVLA a bioamrywiaeth

Oherwydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae'n ddyletswydd ar DVLA i warchod bioamrywiaeth. Fel corff cyhoeddus, rhaid inni roi sylw wrth gyflawni ein busnes craidd i ddiben gwarchod bioamrywiaeth. Mae'r ddeddf yn nodi bod gwarchod bioamrywiaeth yn cynnwys adfer neu wella poblogaeth neu gynefin. Wrth wneud hynny, dylem roi sylw i'r rhestr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o organebau byw a mathau o gynefinoedd sydd o bwys pennaf at ddiben gwarchod bioamrywiaeth. I bob pwrpas, y rhestr hon yw'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n flaenoriaeth i'r CGB ar gyfer yr ystâd.

Mae'r Ymrwymadau Gwyrddio'r Llywodraeth (GGCs) yn nodi'r camau y bydd adrannau llywodraeth y DU a'u sefydliadau partner, yn eu cymryd i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Mae'r DVLA yn asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth (DfT) ac mae'n gorfod cadw at yr amcanion a nodir yn y GGCs.

Cynhyrchwyd CGB y DVLA i helpu i gyflawni'r gofynion hyn. Mae'n ceisio arddangos y nodau ac amcanion sy'n ategu CGB y DU a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol.

1.6. Nodau cynllun gweithredu bioamrywiaeth y DVLA

Nodau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DVLA yw:

- sicrhau bod targedau cynefinoedd a rhywogaethau o adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Ymrwymadau Llywodraeth Wyrddu, a chynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol Abertawe yn cael eu trosi'n gamau gweithredu effeithiol yn yr ystâd
- ymrwymo i greu a gwella cynefinoedd ar draws yr ystâd
- datblygu partneriaethau effeithiol gyda staff a'r gymuned leol i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn y tymor hir
- codi ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn lleol o'r angen o gael cadwraeth bioamrywiaeth, a darparu canllawiau ar fioamrywiaeth
- sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn llawn drwy gydol gweithrediadau'r DVLA
- monitro ac adrodd ar gynnydd mewn cadwraeth bioamrywiaeth

2.

Proses CGB DVLA





2.1. Meincnodi bioamrywiaeth

I gynhyrchu'r CGB, cafwyd gwybodaeth am y cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n bresennol ar yr ystâd yn wreiddiol o'r Asesiad Ecoleg Rhagarweiniol, a gynhaliwyd ym mis Awst 2024. Ar ben hynny, cynhaliwyd astudiaeth ddesg ac arolygon cynefinoedd a rhywogaethau ychwanegol.

2.2. Gosod nodau, amcanion a dangosyddion

Er mwyn cyflawni'r targedau cymharol a nodir yn GGCs, CGB DU, a'r CGB lleol, sefydlwyd 6 nod cyffredinol yn CGB y DVLA. Gosodwyd y nodau hyn er mwyn canolbwyntio rhaglenni gweithredu ac i nodi canlyniadau y gellir eu monitro i fesur cyflawniad. Ar gyfer pob nod, mae dangosydd wedi'i osod – nodwedd fesuradwy o'r nod fydd yn caniatáu asesu'r ddarpariaeth, o'i fonitro dros amser,

Er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl, mae'r holl nodau, amcanion a chatau gweithredu wedi'u llunio i ddilyn canllawiau SMART (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amser-gyfngedig). Mae'r nodau'n uchelgeisiol ond yn gymesur ac yn ymarferol o ystyried yr adnoddau sydd ar gael.

2.3. Gweithredu

Mae amcanion cyffredinol y CGB wedi'u rhannu'n systematig yn wahanol amcanion, ac mae cynlluniau gweithredu penodol wedi'u datblygu i gefnogi cadwraeth a gwella cynefinoedd a rhywogaethau allweddol. Mae gweithredu'r nodau, yr amcanion a'r camau hyn yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth yn effeithiol.

2.4. Monitro ac adrodd yn ôl

Bydd rhaglen fonitro yn mesur os yw amcanion y cynllun wedi'u cyflawni. Disgrifir y dulliau a ddefnyddir yn y cynllun.

Mae'n bwysig adolygu gweithrediad y CGB, ac asesu newidiadau yn statws cynefinoedd a rhywogaethau a hyfywedd cyffredinol y nodau a'r amcanion.

Mae'r cynllun yn nodi'r dulliau i adolygu cyflawniad yr amcanion a chyfleu cynnydd i staff a'r gymuned leol.

3.

Amodau sylfaenol





3.1.

Trosolwg

Mae'r gwerthusiad hwn wedi'i baratoi gan gyfeirio at ganllawiau arfer da cyfredol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol, a'r Pwyllgor Cadwraeth Natur ar y Cyd.

Mae'r CGB hwn yn seiliedig ar y ffynonellau data canlynol:

- CGB blaenorol y DVLA
- astudiaeth ddesg ecolegol
- arolwg cynefinoedd
- arolwg rheoli coed
- arolwg ymlusgiaid

3.2.

CGB blaenorol y DVLA

Mae'r DVLA wedi cyhoeddi 4 CGB, y cyntaf ohonynt yn 2013, gyda'r nod o wella bioamrywiaeth ar ystâd y DVLA. Diben pob un yw meincnodi a gwella gwerth ecolegol ein hystâd a hyrwyddo manteision i'n staff.

3.3.

Astudiaeth ddesg

Cynhaliwyd yr astudiaeth ddesg sylfaenol gan y prif ecolegydd, Grace Dooley, fel rhan o'r Gwerthusiadau Ecolegol Rhagarweiniol a gynhaliwyd gan Just Mammals Ltd ym mis Awst 2024. Pwrpas yr astudiaeth oedd adolygu gwybodaeth sylfaenol ecolegol sydd ar gael yn y parth cyhoeddus.

Gofynnwyd am gofnodion gan Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth de-ddwyrain Cymru o fewn radiws o 1km a dychwelwyd cyfanswm o 1,018 o gofnodion ar draws safleoedd Treforys a diwydiannol y DVLA.

Chwiliwyd am safleoedd sydd â dynodiadau statudol o fewn 1km. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (NNR)
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC)
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI)
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA)

Chwiliwyd hefyd am safleoedd sydd â dynodiadau anstatudol o fewn 1km. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ardaloedd o Goetir Lled-Naturiol Hynafol (ASNW)
- Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS)
- Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol (LWS)
- Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR)
- Safleoedd o Ddiddordeb i Gadwraeth Natur (SINC)

Cwblhawyd astudiaeth ddesg ychwanegol ar gofnodion herpetoffawna gan reolwr cynaliadwyedd ac amgylchedd hyfforddai graddedig, Katherine Stephens. Cyflwynodd yr astudiaeth wybodaeth yn ymwneud â gweithgaredd herpetoffawna yn sir Abertawe. Dogfennwyd tua 42 cofnod¹ o welediadau herpetoffawna rhwng 1 Ionawr 2024 a 30 Mai 2025.

Mae canfyddiadau'r astudiaethau desg wedi'u hymgorffori yn adran 3 o'r adroddiad hwn.

¹ Rhestr Cofnod – Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC) a Grwpiau Amffibiaid ac Ymlusgiaid y Deyrnas Unedig (ARG DU) https://www.recordpool.org.uk/index.php?option=com_records&controller=all_records&view=allrecords&Itemid=18



3.4. Arolwg cynefinoedd

Cynhaliwyd Cam 1 o arolwg cynefinoedd o'r ddau safle ar 5 Awst 2024, mewn tywydd cymedrol i dda. Archwiliwyd ac aseswyd pob ardal o fewn y safle am ddangosyddion o werth ecolegol, gan gynnwys presenoldeb neu arwyddion maes o unrhyw gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig neu brin. Cynhaliwyd Cam 1 o'r arolwg cynefinoedd gan y prif ecolegydd, Grace Dooley, ar ran Just Mammals Ltd.

Lluniwyd rhestr o rywogaethau planhigion ar gyfer pob safle (Atodiad A).

Lluniwyd cynefinoedd a nodiadau ar fap o safle'r arolwg, a chynhyrchwyd map cynefin cam 1 lliw (gweler Atodiad B).

3.5. Arolwg rheoli coed

Cynhaliwyd archwiliad llawn o'r holl goed ar safle Treforys gan weithiwr proffesiynol coedyddiaethol profiadol a chymwys o gwmni Treecare Consulting yn ystod mis Chwefror 2025.


Cwblhawyd yr archwiliad ar brif safle Treforys fel rhan o amserlen archwilio barhaus i nodi coed neu nodweddion coed sy'n peri bygythiad neu niwsans sylweddol ar adeg yr arolwg ar y safle. Ni chafwyd unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol yn ystod yr arolwg hwn, ond mae yna argymhelliad gwaith blaenoriaeth 1 i gael gwared ar rywffaint o eiddew o goed yr effeithir arnynt yng nghornel ogledd-ddwyreiniol ystâd Treforys.

Nid yw safle ein huned ddiwydiannol yn cael ei gynnwys yn yr arolwg coed ar hyn o bryd gan fod y coed sy'n bresennol yn ifanc i hanner-aeddfed ac nid yw iechyd yr un ohonynt yn dirywio.

3.6. Arolygon rhywogaethau gwarchodedig a rhywogaethau nodedig

Yn ailadroddiad blaenorol y CGB, cynhaliwyd arolwg ystlumod ac arolwg herpetoffawna i ddarparu llinellau sylfaen. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau, ni chafodd unrhyw arolygon ystlumod eu cwblhau cyn cyhoeddi'r ailadroddiad hwn o'r CGB. Serch hynny, bydd arolwg ystlumod yn cael ei chynnal yn ystod y 5 mlynedd nesaf, a'r CGB yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.

Cwblhawyd arolwg herpetoffawna llawn gan aelodau hyfforddedig o'r tîm Katherine Stephens a Hilary Elliott rhwng mis Mai a mis Awst 2025. Darparodd adroddiad yr arolwg argymhellion i hyrwyddo poblogaethau herpetoffawna ar draws ystâd y DVLA ac fe'i defnyddiwyd i nodi camau gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.



4.

Cynllun gweithredu bioamrywiaeth DVLA





4.1. Nodau

Nodau CGB y DVLA yw:

- sicrhau bod targedau cynefinoedd a rhywogaethau adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Ymrwymadau Llywodraeth Wyrddu, a chynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol Abertawe yn cael eu trosi'n gamau gweithredu effeithiol ar yr ystâd
- ymrwymo i greu a gwella cynefinoedd ar draws yr ystâd
- datblygu partneriaethau effeithiol gyda staff a'r gymuned leol i sicrhau bod rhaglenni ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yn cael eu cynnal yn y tymor hir
- codi ymwybyddiaeth yn fewnol ac yn lleol o'r angen am gadwraeth bioamrywiaeth, a darparu canllawiau ar fioamrywiaeth
- sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yn llawn drwy gydol gweithrediadau'r DVLA
- monitro ac adrodd ar gynnydd mewn cadwraeth bioamrywiaeth

Er mwyn sicrhau bod y nodau hyn yn cael eu cyflawni, mae cynlluniau gweithredu penodol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau wedi'u datblygu i gynnal a gwella eu cyflwr ar yr ystâd. Yn ogystal, gall y CGB gyfrannu at amcanion bioamrywiaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth.

Mae'r ystâd yn cynnwys 3 safle yn ardal Abertawe, ac 1 safle yn Birmingham sy'n darparu mathau gwahanol o gynefinoedd. Darperir disgrifiad byr o'r safleoedd hyn isod.





Mae ein prif safle, lle mae mwyafrif ein staff yn cael eu defnyddio, mewn lleoliad trefol yn ardal Treforys. Mae'r safle wedi'i amgylchynu gan eiddo preswyl i'r gogledd, dwyrain a'r de ac amlogsgfa a mynwent Treforys i'r gorllewin. Mae'r safle hwn yn rhan o Ystâd y Goron.

Mae ein huned eilaidd nad yw'n swyddfa mewn lleoliad trefol o fewn ystâd ddiwydiannol ar ochr ogledd-orllewin Abertawe. Mae'r safle wedi'i amgylchynu gan unedau diwydiannol eraill ar bob ochr. Mae yna goridor o lystyfiant rhwng yr unedau i'r gogledd a'r gorllewin sy'n arwain at ardal o laswelltir gyda choetir i'r de. Er nad ydym yn berchen ar y safle hwn, mae gennym ymreolaeth gyffredinol wrth reoli'r adeilad a'r amgylchedd allanol.

Mae gennym drydydd safle, sy'n cynnwys ein canolfan gyswilt a'n cyfleusterau dysgu, sydd wedi'i leoli mewn lleoliad trefol gyda thai preifat ac ystâd ddiwydiannol o'i amgylch. Mae'r safle yn adeiladau swyddfa yn bennaf gyda maes parcio ac mae ganddo ychydig iawn o fannau gwyrdd. Ar ben hynny, nid ydym yn berchen ar y safle hwn ac nid oes gennym fawr o sgôp i ymgorffori amcanion bioamrywiaeth a fyddai'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r safle. Yn ogystal, mae ein pedwerydd safle, Baskerville House, hefyd wedi'i leoli mewn lleoliad trefol yng nghanol Birmingham. Mae'r safle yn adeilad rhestredig gradd II nad oes ganddo unrhyw fannau gwyrdd. O ganlyniad, nid yw'r safleoedd hyn wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Serch hynny, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod yr holl staff ar draws yr ystâd yn cael eu cynnwys ac yn cymryd rhan yn y cynllun.

O ystyried maint cymharol fychan ein safleoedd, a'r amrywiaeth gyfyngedig o gynefinoedd a gefnogir o fewn ei ffiniau, mae'r CGB yn canolbwyntio ar 5 rhywogaeth a 6 chynefin. Mae unrhyw rywogaethau ymledol hefyd wedi'u cynnwys. Mae canlyniadau'r Asesiadau Effeithiolrwydd Creadigol (PEA), astudiaethau desg, arolygon herpetoffawna, a chofnodion y safle a gasglwyd yn flaenorol gan y DVLA wedi dylanwadu ar ddewis y rhywogaethau a'r cynefinoedd. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, cynhyrchwyd rhestr fer o rywogaethau a chynefinoedd.

Fe wnaethom ddewis rhywogaethau a chynefinoedd targed lle:

- mae rhwymedigaeth gyfreithiol yn bodoli i amddiffyn y rhywogaeth neu'r cynefin
- mae'r cynefin neu'r rhywogaeth eisoes yn bresennol ar y safle ond gellid gwella ei statws neu ei ddosbarthiad gyda rheolaeth dargedig
- nid yw rhywogaeth wedi'i chofnodi ar y safle o'r blaen ond mae potensial y byddai gwella'r cynefin ar y safle yn cyfrannu at niferoedd lleol a statws cadwraeth y rhywogaeth dan sylw
- mae rhywogaethau ymledol fel y'u rhestrir yn Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn bresennol ar yr ystâd





4.2. Cynefinoedd y DVLA

Cynhaliwyd arolygon ecolegol yn ein safle yn Nhreforys a'r safle diwydiannol. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn dangos bod 7 math o gynefin cam 1 wedi'u nodi yn safle Treforys a 9 math o gynefin cam 1 wedi'u nodi yn y safle diwydiannol. Mae trefn y disgrifiadau cynefinoedd isod yn adlewyrchu eu trefn yn llawlyfr arolwg cynefinoedd Cam 1 ac nid yw'n adlewyrchu pwysigrwydd y cynefinoedd.

Yn seiliedig ar y meini prawf a drafodwyd uchod, mae'r cynefinoedd canlynol wedi'u dewis i'w cynnwys yn y CGB.

Math o gynefin	Cynefin blaenoriaeth Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru)	Prif safle – Treforys	Safle diwydiannol
Prysgwydd trwchus	Rhostir iseldir	✓	✓
Parcdir a choed gwasgaredig cymysg	Porfa goediog a pharcdir	✓	✓
Glaswelltir niwtral wedi'i led-wella	Dolydd iseldir	✓	✓
Glaswelltir amwynder	Na	✓	✓
Llwyn wedi'i gyflwyno	Na	✓	✓
Gwrych cyfan o rywogaethau gwael	Gwrychoedd	✓	✓
Gwrych a choed, gwael o ran rhywogaethau	Gwrychoedd	✓	
Coeden gynefinol dal	Rhostir iseldir		✓
Dŵr llonydd mesotroffig	Pyllau		✓
Ffos sych	Na		✓



Cynllun Gweithredu Cynefinoedd 1 – HAP1

Cynefinoedd rhostir iseldir: prysgwydd trwchus a choed cynefinol tal.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
HAP 1.1	Cyflwyno amserlen torri llysdyfiant a glaswellt dethol i gynnal cynefin (torri ar draws olyniaeth).	
HAP 1.2	Atal colli cynefinoedd agored oherwydd goresgyniad prysgwydd.	Prif safle a safle diwydiannol
HAP 1.3	Dileu prysgwydd ymledol o gynefinoedd pwysig.	
HAP 1.4	Cynnal cydbwysedd cytunedig rhwng prysgwydd a chynefinoedd agored.	

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd 2 – HAP 2

Cynefin porfa coetir a pharcdir: parcdir a choed gwasgaredig wedi'u cymysgu.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
HAP 2.1	Lle bynnag y bo modd, cadw'r elfennau pwysig sef coed marw a rhai sy'n pydru a phren marw wedi cwmpo ac yn sefyll.	
HAP 2.2	Ystyried asesiadau risg addas ar gyfer coed lle gall fod perygl i'r cyhoedd er mwyn atal torri neu gael gwared ar bren marw yn ddiangen.	Prif safle a safle diwydiannol
HAP 2.3	Cynyddu poblogaeth coed gyda chymffurfio blannu a reolir, gan gynnwys plannu llwyni ar gyfer neithdar.	
HAP 2.4	Creu ardal amddiffyn gwreiddiau o amgylch coed aeddfed i osgoi rhoi gwrteithiau neu blaladdwyr, neu ganiatáu cywasgu pridd neu gloddio a fyddai'n niweidio gwreiddiau.	

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd 3 – HAP 3

Dolydd iseldir: glaswelltir naturiol wedi'i led-wella. Cynyddu amrywiaeth rhywogaethau.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
HAP 3.1	Hybu adfywiad naturiol drwy gynnal amserlen torri gwair mewn ardaloedd priodol.	Prif safle a safle diwydiannol
HAP 3.2	Cynyddu amrywiaeth y glaswellt gydag amserlen blannu briodol.	



Cynllun Gweithredu Cynefinoedd 4 – HAP 4

Gwrychoedd.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
HAP 4.1	Mapio a mesur yr holl wrychoedd i sefydlu mesuriad llinell sylfaen. Sicrhau nad yw cyfanswm hyd y gwrych ar y safle yn disgyn o dan yr hyd hwn.	
HAP 4.2	Cynllunio a dylunio'r holl weithrediadau safle a gweithgaredd datblygu yn y dyfodol i osgoi colli neu fyrhau gwrychoedd.	
HAP 4.3	Creu gwrych brodorol newydd sy'n llawn rhywogaethau.	Prif safle a safle diwydiannol
HAP 4.4	Caniatáu i ddail crin Gronni wrth waelod gwrychoedd ac mewn ardaloedd o brysgwydd er budd pryfed, adar a draenogod sy'n gaeafgysgu.	
HAP 4.5	Osgoi torri gwrychoedd yn ystod tymor nythu rhwng mis Mawrth ac Awst. Er mwyn annog bioamrywiaeth, dylid amserlennu torri gwrychoedd ar gyfer mis Ionawr i fis Chwefror a mis Medi i fis Hydref.	

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd 5 – HAP 5

Glaswelltir amwynder a llwyni a gyflwynwyd. Ein nod yw gwella gwellu gwerth bioamrywiaeth planhigion addurnol a chynefin glaswelltir.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
HAP 5.1	Parhau i reoli ardaloedd o laswelltir fel ardaloedd bywyd gwyllt.	
HAP 5.2	Cynnal amserlenni torri gwair er budd bioamrywiaeth mewn rhai ardaloedd a hau cymysgedd hadau blodau gwyllt brodorol.	Prif safle a safle diwydiannol
HAP 5.3	Nodi ardaloedd o blanhigion addurnol o ddiddordeb bioamrywiaeth isel a'u disodli â rhywogaethau neu gynefinoedd mwy gwerthfawr.	



Cynllun Gweithredu Cynefinoedd 6 – HAP 6

Pwll a ffos sych.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
HAP 6.1	Clirio llystyfiant yn rhannol o byllau i greu golwg agored.	Safle diwydiannol
HAP 6.2	Cynnal llystyfiant i 30cm trwy strimio ym mis Medi a mis Mawrth.	
HAP 6.3	Rheoli twf algaidd.	





4.3.

Cynefinoedd DVLA

Dim ond pan fo eu hanghenion y tu hwnt i allu'r camau gweithredu a amlinellir yn y cynlluniau gweithredu cynefinoedd y mae camau gweithredu penodol wedi'u neilltuo i rywogaethau unigol (er enghraifft, nid oes cynllun gweithredu rhywogaethau ar gyfer brogaod cyffredin na llyffantod cyffredin wedi'i ddatblygu gan fod amcanion cynllun gweithredu ar gyfer y rhywogaethau hyn eisoes ar y gweill drwy'r cynllun gweithredu cyffredinol ar gyfer pyllau).

Tynnwyd sylw at bresenoldeb y rhywogaethau planhigion canlynol sydd ar Atodlen 9 yn ystod ymweliadau blaenorol â'r safle:

- Canclwm Japan (*Reynoutria japonica*)
- Crib y ceiliog (*Crocasmia x crocosmiiflora*)
- Rhododendron (*Rhododendron ponticum*)

- Rhywogaethau Creigafal (*Cotoneaster* sp.) nad oeddent wedi'u nodi i lefel rhywogaeth ac a allai fod yn un o'r rhywogaethau ar Atodlen 9

Mae'r rhain yn rhywogaethau estron ymledol (INNS) a rhaid peidio â'u lledaenu yn y gwyllt. Mae cynllun rheoli Clymog Japan llwyddiannus ar waith i ddileu clystyrau bach ohono sydd wedi'u cyfyngu i'r ffin ogledd-ddwyreiniol yn ein prif safle.

Yn seiliedig ar y meini prawf a drafodwyd uchod, mae'r rhywogaethau canlynol wedi'u dewis i'w cynnwys yn y CGB.





Rhywogaethau	Rhywogaethau S.7	Prif safle – Treforys	Safle diwydiannol
Ystlymod* – Noctule (<i>Nyctalus noctula</i>)	✓	✓	✓
Leisler's (<i>Nyctalus leisleri</i>)	✓	✓	✓
Ystlum lleiaf (<i>Pipistrellus pipistrellus</i>)	✓	✓	✓
Ystlum lleiaf Nathusius (<i>Pipistrellus nathusii</i>)	✓	✓	✓
Ystlum lleiaf Soprano (<i>Pipistrellus pygmaeus</i>)	✓	✓	
Ystlum hirglust brown (<i>Plecotus auritus</i>)	✓	✓	
Gwenyn Mêl			✓
Madfallod cyffredin (<i>Zootoca vivipara</i>)	✓		✓
Neidr Wellt (<i>Natrix Natrix Helvetica</i>)	✓		✓
Ffacbysen Coed (<i>Vicia sylvatica</i>)		✓	
Cribau San Ffraid (<i>Stachys officinalis</i>)		✓	
Canclwm Japan (<i>Reynoutria japonica</i>)		✓	
Crib-y-ceiliog (<i>Crocasmia x crocosmiiflora</i>)		✓	
Rhododendron (<i>Rhododendron ponticum</i>)			✓
Cotoneaster (<i>Cotoneaster</i> sp.)			✓

* Cafwyd hyd i bob un o'r 3 isrywogaeth Pipistrelle yn ystod yr arolwg ystlumod diwethaf a gynhaliwyd yn 2019.



Cynllun Gweithredu Rhywogaethau 1 – SAP 1

Ein nod yw annog y defnydd o'n safleoedd a darparu nodweddion clwydo i ychwanegol i ystlumod.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
SAP 1.1	Lleihau gollyngiad golau o oleuadau allanol, yn enwedig ger coridorau tywyll, gwrychoedd ffiniol, a choed.	
SAP 1.2	Nodi lleoliadau posibl ar gyfer creu clwydi gan gynnwys coed, adeiladau a strwythurau eraill.	Prif safle a safle diwydiannol
SAP 1.3	Gosod blychau ystlumod neu nodweddion clwydo priodol ar draws nodweddion a nodwyd – amgylchedd adeiledig a naturiol.	
SAP 1.4	Gosod coridorau o oleuadau cylch coch tywyll i ddarparu cysylltedd lle bo angen.	

Cynllun Gweithredu Rhywogaethau 2 – SAP 2

Gwenyn.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
SAP 2.1	Cynnal cychod gwenyn ar y safle.	Safle diwydiannol
SAP 2.2	Darparu cynefin peillwyr ychwanegol gydag amserlen gynnal a chadw ddiwygiedig i ardaloedd penodol.	





Cynllun Gweithredu Rhywogaethau 3 – SAP 3

Madfalloed cyffredin a nadroedd gwellt. Ein nod yw cynnal dwysedd y boblogaeth cynnal dwysedd y boblogaeth a sicrhau bod addasrwydd cynefinoedd yn cael ei gynnal.

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
HAP 3.1	Cynnal amodau cynefinoedd gydag amserlen cynnal a chadw flynyddol dargedig.	Safle diwydiannol
HAP 3.2	Creu gaeafle lle bo'n briodol.	

Cynllun Gweithredu Rhywogaethau 4 – SAP 4

Dangosyddion coetir hynafol: ffacbys y coed a chribau San Ffraid

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
SAP 4.1	Rheoli cynefin i sicrhau nad yw'r planhigion yn cael eu haflonyddu.	Prif safle
SAP 4.2	Gosod arwyddion i godi ymwybyddiaeth.	

Cynllun Gweithredu Rhywogaethau 5 – SAP 5

Rhywogaethau ymledol.

Y rhywogaethau ymledol ar y safle yw:

- Canclwm Japan (Reynoutria japonica)
- Crib y ceiliog (Crocasmia x crocosmiiflora)
- Rhododendron (Rhododendron ponticum)
- Cotoneaster (Cotoneaster sp.)

Rhifau cyf	Gweithredu	Safle
SAP 5.1	Sicrhau cynnal cynllun rheoli clymog Japan a'i fod yn cael ei fonitro am effeithlonrwydd.	Prif safle a safle diwydiannol
SAP 5.2	Sicrhau nad yw'r holl waith a wneir mewn ardaloedd lle mae rhywogaethau Atodlen 9 yn bresennol yn tarfu ar y planhigyn ac yn eu lledaenu.	



4.4.

Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â'r gymuned

Mae ymgysylltiad staff a'r gymuned yn hanfodol i weithredu'r CGB yn llwyddiannus a bydd yn sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybod ac yn cyd-fynd â'r cynllun gweithredu.

Bydd ein hymrwymiad i godi ymwybyddiaeth o'r CGB yn helpu i greu amgylchedd cadarnhaol, yn meithrin ymdeimlad o fuddsoddiad ac yn ymwneud â bioamrywiaeth leol a'r amgylchedd naturiol.

Rydym hefyd yn gobeithio y gall llwyddiant y DVLA ymestyn y tu hwnt i'n hystadau ac i'r gymuned ehangach, – annog ymgysylltiad cadarnhaol trwy gyfathrebu â phartneriaid allanol a thrwy gynnal a mynychu digwyddiadau.

Er mwyn hyrwyddo ymgysylltiad staff a'r gymuned â bioamrywiaeth, dewiswyd y camau gweithredu canlynol i'w cynnwys yn y CGB.

Cynllun Gweithredu Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu â'r Gymuned 1 – ACEAP 1

Hyrwyddo bioamrywiaeth gyda staff ac ymwelwyr.

Rhifau cyf	Gweithredu
ACEAP 1.1	Codi ymwybyddiaeth o arddio bywyd gwyllt i staff ac ymwelwyr.
ACEAP 1.2	Cynnwys ysgolion lleol yn niwrnod bioamrywiaeth ar y safle.
ACEAP 1.3	Creu llwybr gydag arwyddion i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth ar y safle.
ACEAP 1.4	Creu pwyllgor bioamrywiaeth i oruchwyllo ac adrodd ar gynnydd.



5.

Rhoi'r cynllun ar waith





5.1. Rôlau a chyfrifoldebau

Bydd tîm cynaliadwyedd y DVLA yn sicrhau bod amcanion ein CGB yn cael eu gweithredu. Ein prif swyddog bioamrywiaeth fydd yn gyfrifol am gydlyn. Bydd y cyfrifoldebau'n cynnwys gweithredu'r CGB, monitro, mesur a chofnodi cynnydd.

Er mwyn cydlyn gweithrediad y CGB mae grŵp llywio sy'n cyfarfod yn fisol. Mae'r grŵp hwn yn sicrhau ein bod yn cynnal momentwm ac yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni amcanion y CGB.

5.2. Monitro ac adolygu

Cyfrifoldeb ein prif swyddog bioamrywiaeth fydd monitro ac adolygu CGB y DVLA. Bydd y nodau'n cael eu hadolygu bob 12 mis fel y gellir monitro a chofnodi cynnydd, gyda pharatoadau digonol yn cael eu gwneud cyn gweithredu'r set nesaf o nodau.

Bydd ein CGB yn cael ei ystyried yn ddogfen fyw y gellir ei diwygio gydag amcanion ychwanegol. Yn yr un modd, mae'r amserlen i gyflawni amcanion hefyd yn hyblyg, felly dylid symud prosiectau i gyd-fynd ag adnoddau neu gyfleoedd. Lle nad yw amcanion wedi'u cyflawni neu nad ydynt yn gyraeddadwy, bydd y CGB yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny. Gwneir hyn trwy adolygu'r dyddiad targed neu ddisodli'r amcan gyda cham gweithredu arall a fyddai o fudd i rywogaeth flaenoriaeth neu darged ar y BAP, LBAP neu'r CGB y DU.

5.3. Adrodd yn ôl

Mae gennym nifer o ofynion adrodd yn ôl sy'n cael eu cyhoeddi'n allanol gan eu gwneud yn hygyrch i bawb sydd am ddod yn gyfarwydd â'n cynnydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

Rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon sy'n monitro ein cyflawniadau yn erbyn targedau ac amcanion. Yn ogystal, mae cyhoeddi adroddiad crynodeb Atodlen 6 yn allanol yn hanfodol, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.



Atodiadau



Atodiad A– Rhywogaethau planhigion a gofnodwyd

Prif safle

Prysgwydd trwchus A2.1.

Mieri Rubus fruticosus agg.

Ceirchwellt ffug Arrhenatherum elatius

Llysiau'r waun Lathyrus pratensis

Iorwg Hedera helix

Prifet Ligustrum vulgare

Helyglys pêr Epilobium hirsutum

Helyglys hardd Chamerion angustifolium

Dail tafol Rumex obtusifolius

Ffacbysen y coed Vicia sylvatica (TN8 AWI)

Marchrawn Equisetum arvense

Cotoneaster (Atod. 9 rhywogaeth o bosibl)

Llysiau'r swynwr Circaea lutetiana

Gwlyddyn y Perthi Galium aparine

Efwr cyffredin Heracleum sphondylium

Rhwymog y Clawdd Calystegia sepium

Parcdir a choed gwasgaredig wedi'u cymysgu A3.3.

Cerddinen Sorbus aucuparia

Pinwydden yr Alban Pinus sylvestris

Sycamorwydden Acer pseudoplatanus

Onnen Fraxinus excelsior

Leylandii (sp.) Cupressus x leylandii

Oestrwydden Carpinus betulus

Derwen Quercus robur

Bedwen bapur Betula papyrifera

Draenen wen Crataegus monogyna

Helygen ddeilgron Salix caprea

Planwydden Llundain Platanus x acerifolia

Pisgwydd dail mawr Tilia platyphyllos

Castanwydden bêr Castanea sativa

Ffawydd Fagus sylvatica

Cerddinen Sweden Sorbus intermedia

Helygen wen Salix alba

Gymwydden bêr Liquidambar styraciflua

Llarwydden Ewropeaidd † Larix decidua

Coeden y nefoedd Ailanthus altissima

Masarnen (sp.) Acer sp.

Afal Malus sp.

Celyn Ilex aquifolium

Collen Corylus avellana

Gwernen Alnus glutinosa

Gwernen Eidalaidd Alnus cordata



Glaswelltir niwtral wedi'i led-wella B2.2. (o amgylch y maes parcio gerllaw Ffordd Clasemont)

Ceirchwellt ffug *Arrhenatherum elatius*

Cawnen benwen *Holcus lanatus*

Meillionen troed aderyn *Lotus corniculatus*

Byswellt *Dactylis glomerata*

Efwr cyffredin *Heracleum sphondylium*

Mieri *Rubus fruticosus* agg.

Y goesgoch *Geranium robertianum*

Hocysen bêr *Malva moschata*

Ytbysen y waun *Lathyrus pratensis*

Meillionen hopysaidd fach *Trifolium dubium*

Pumbys ymlusgol *Potentilla reptans*

Pig yr aran hirgoes *Geranium columbinum*

Ffacbys copog *Vicia cracca*

Clust-y-llygoden gulddail *Cerastium fontanum*

Y feddyges las *Prunella vulgaris*

Iorwg *Hedera helix*

Glaswelltir niwtral wedi'i led-wella B2.2. (o amgylch bloc B)

Y feddyges las *Prunella vulgaris*

Llygad yr ych *Leucanthemum vulgare*

Cawnen benwen *Holcus lanatus*

Maeswellt cyffredin *Agrostis capillaris*

Rhygwellt parhaol *Lolium perenne*

Meillionen troed aderyn *Lotus corniculatus*

Pumnaen gyffredin *Potentilla simplex*

Llygad doli *Veronica chamaedrys*

Milfyw *Luzula campestris*

Ysgallen y gors *Cirsium palustre*

Blodyn-ymenyn ymlusgol *Ranunculus repens*

Marchysgallen *Cirsium vulgare*

Briallu *Primula vulgaris*

Meillionen goch *Trifolium pratense*

Rhwyddlwyn y coed *Veronica montana* (awi)

Clust-y-llygoden gulddail *Cerastium fontanum*

Dail tafol *Rumex obtusifolius*

Briallu Mair *Primula veris*

Llyriaid yr ais *Plantago lanceolata*

Dant y llew (sp.) *Taraxacum* sp.

Byswellt *Dactylis glomerata*

Y bengaled *Centaurea nigra*

Creulys y ffos *Jacobaea vulgaris*

Ffugalaw bach *Hypochaeris radicata*



Glaswelltir niwtral wedi'i led-wella B2.2. (ardal fach o amgylch TN14)

Ceirchwellt tal Arrhenatherum elatius

Marchwellt Elymus repens

Mieri Rubus fruticosus agg.

Dail tafol Rumex obtusifolius

Helyglys pêr Epilobium hirsutum

Rhedyn Pteridium aquilinum

Meillionen troed aderyn Lotus corniculatus

Pumnaen Potentilla sp.

Cribau San Ffraid Stachys officinalis (awi) TN14

Mapgoll Geum urbanum

Peiswellt coch Festuca rubra

Mwsogl (sp.)

Tafolen grech Rumex crispus

Meillionen hopysaidd fach Trifolium dubium

Ffugalaw bach Hypochaeris radicata

Clust-y-llygoden gulddail Cerastium fontanum

Gwrych cyfan, gwael o ran rhywogaethau J2.1.2. (o amgylch yr is-orsaf)

Leylandii (sp.) Cupressus x leylandii

Glaswelltir amwynder J1.2.

Rhygwellt parhaol Lolium perenne

Maeswellt cyffredin Agrostis capillaris

Maswellt penwyn Holcus lanatus

Meillionen wen Trifolium repens

Llygad yr ych Leucanthemum vulgare

Meillionen troed aderyn Lotus corniculatus

Llaethysgallen arw Sonchus asper

Y feddyges las Prunella vulgaris

Llyriad yr ais Plantago lanceolata

Blodyn-ymenyn ymlusgol Ranunculus repens

Ceirchwellt tal Arrhenatherum elatius

Llygad y dydd Bellis perennis

Byswellt Dactylis glomerata

Gwrych cyfan, gwael o ran rhywogaethau J2.1.2. (o amgylch y feithrinfa a'r maes parcio cyfagos)

Celyn Ilex aquifolium

Iorwg Hedera helix

Taglys y perthi Calystegia sepium

Llau'r offeiriad Galium aparine

Cartheig Lapsana communis

Y goesgoch Geranium robertianum

Ceirchwellt tal Arrhenatherum elatius

Maswellt penwyn Holcus lanatus

Elinog Solanum dulcamara

Mieri Rubus fruticosus agg.

Ysgaw Sambucus nigra

Onnen Fraxinus excelsior



Gwrych a choed, gwael o ran rhywogaethau J.2.3.2

Draenen wen *Crataegus monogyna*

Sycamorwydden *Acer pseudoplatanus*

Onnen *Fraxinus excelsior*

Prifet *Ligustrum vulgare*

Iorwg *Hedera helix*

Isdyfiant o rywogaethau prysgwydd trwchus yn bresennol

Lwyni a gyflwynwyd J1.4.

Y gynffon las *Buddleja davidii*

Rhosyn spp. *Rosa* spp.

Eithin *Ulex europaeus*

Rhosyn Saron *Hypericum calycinum*

Corhesgen *Carex* sp.

Cwytros *Cornus sanguinea*

Phormium sp.

Spirea sp.

Rhododendron sp.

Mefus gwyllt *Fragaria vesca*

Tegeirian-y-gors ddeheuol *Dactylorhiza praetermissa*

Mahonia sp.

Pren bocs *Buxus sempervirens*

Jasmin sp. *Jasminum* sp.

Calmia sp. *Laurus* sp.





Safle'r uned ddiwydiannol

Llwyni trwchus A2.1. (wedi'u lleoli yng ngogledd-orllewin y safle)

Eithin *Ulex europaeus*

Mieri *Rubus fruticosus* agg.

Ysgallen y maes *Cirsium arvense*

Helyglys pêr *Epilobium hirsutum*

Dail tafol *Rumex obtusifolius*

Tafol y gors *Rumex palustris*

Cwytros *Cornus sanguinea*

Rhosyn gwyllt *Rosa canina*

Draenen ddu *Prunus spinosa*

Peiswellt mawr *Festuca gigantea*

Ceirchwellt tal *Arrhenatherum elatius*

Maswellt penwyn *Holcus lanatus*

Cynffon y gath *Typha latifolia*

Helygen ddeilgron *Salix caprea*

Milfyw *Luzula campestris*

Y bengaled *Centaurea nigra*

Byswellt *Dactylis glomerata*

Ytbys y ddôl *Lathyrus pratensis*

Llwyni trwchus A2.1. (ar ochr ddwyreiniol y safle)

Mieri *Rubus fruticosus* agg.

Helygen ddeilgron *Salix caprea*

Eithin *Ulex europaeus*

Draenen ddu *Prunus spinosa*

Draenen wen *Crataegus monogyna*

Collen *Corylus avellana*

Dail tafol *Rumex obtusifolius*

Helygen wiail *Salix viminalis*

Collen *Corylus avellana*

Creulys y ffos *Jacobaea vulgaris*

Parcdir a choed gwasgaredig wedi'u cymysgu A3.3.

Onnen *Fraxinus excelsior*

Helygen ddeilgron *Salix caprea*

Helygen wiail *Salix viminalis*



Glaswelltir niwtral wedi'i led-wella B2.2.

Ceirchwellt tal *Arrhenatherum elatius*

Brigwellt garw *Deschampsia cespitosa*

Maswellt penwyn *Holcus lanatus*

Llysiau Ifan *Hypericum perforatum*

Y feddyges las *Selfheal Prunella vulgaris*

Pumbys ymlusgol *Potentilla reptans*

Dail arian *Potentilla anserina*

Ysgallen y maes *Cirsium arvense*

Byswellt *Dactylis glomerata*

Ytbys y ddôl *Lathyrus pratensis*

Marchrawnen y coed *Equisetum arvense*

Llyriad yr ais *Plantago lanceolata*

Y bengaled *Centaurea nigra*

Brwynen babwyr *Juncus effusus*

Llaethysgallen arw *Sonchus asper*

Helyglys pêr *Epilobium hirsutum*

Dail tafol *Rumex obtusifolius*

Maeswellt rhedegog *Agrostis stolonifera*

Helyglys llydanddail *Epilobium montanum*

Creulys y ffos *Jacobaea vulgaris*

Ysgall y gors *Cirsium palustre*

Marchysgallen *Cirsium vulgare*

Y goesgoch *Geranium robertianum*

Rhonwellt *Phleum pratense*

Brwynen galed *Juncus inflexus*

Marddanhadlen goch (sp). *Lamium* sp.

Rhedynen Fair *Athyrium filix-femina*

Byddon chwerw *Eupatorium cannabinum*

Llysiau'r-milwr coch *Lythrum salicaria*

Eithin *Ulex europaeus*

Mieri *Rubus fruticosus* agg.

Coeden gynefinol dal C3.1.

Ysgall y gors *Cirsium palustre*

Y bengaled

Brigwellt garw

Dail tafol *Rumex obtusifolius*

Panasen wyllt *Pastinaca sativa*

Brwynen galed *Juncus inflexus*

Brwynen babwyr *Juncus effusus*

Ffacbys y berth *Vicia cracca*

Llau'r offeiriad *Galium aparine*

Pumbys ymlusgol *Potentilla reptans*

Hesgen dywysennog fawr *Carex vulpinoidea*

Byswellt *Dactylis glomerata*

Peiswellt mawr *Festuca gigantea*

Brwynen bellennaidd *Juncus conglomeratus*

Marchwellt *Elymus repens*

Creulys y ffos *Jacobaea vulgaris*



Dŵr llonydd mesotroffig G1.2. (ffos wlyb)

Cynffon y gath *Typha latifolia*

Helyglys pêr *Epilobium hirsutum*

Dŵr llonydd mesotroffig G1.2. (pwl)

Cynffon y gath *Typha latifolia*

Tafol y gors *Rumex palustris*

Mwsogl sp.

Glaswelltir amwynder J1.2.

Mwsogl sp.

Meillionen wen *Trifolium repens*

Meillionen troed aderyn *Lotus corniculatus*

Y feddyges las *Prunella vulgaris*

Milfyw *Luzula campestris*

Peiswellt mawr *Festuca gigantea*

Dail tafol *Rumex obtusifolius*

Blodyn-y-menyn ymlusgol *Ranunculus repens*

Llygad y dydd *Bellis perennis*

Llyriad yr ais *Plantago lanceolata*

Ceirchwellt tal *Arrhenatherum elatius*

Maswellt penwyn *Holcus lanatus*

Clust y llygoden gulddail *Cerastium fontanum*

Dail arian *Potentilla anserina*

Marchwellt *Elymus repens*

Meillionen goch *Trifolium pratense*

Meillionen hopysaidd fach *Trifolium dubium*

Y bengaled *Centaurea nigra*

Lwyn a gyflwynwyd J1.4.

Pren bocs *Buxus sempervirens*

Berberis sp.

Cotoneaster gwyh (rhywogaeth Atod. 9 o bosibl)

Collen *Corylus avellana*

Rhododendron *Rhododendron ponticum* (Atodiad 9)

Eithin *Ulex europaeus*

Afal *Malus* sp.

Helygen ddeilgron *Salix caprea*

Gwifwrnwydden y gors *Viburnum opulus*

Piswydd *Euonymus europaeus*

Calmia sp. *Laurus* sp.

Cerddinen wen spp. *Sorbus* spp.

Rhosyn gwyllt *Rosa canina*



Gwrych cyfan, gwael o ran rhywogaethau J2.1.2.

Collen *Corylus avellana*

Helygen wial *Salix viminalis*

Eithin *Ulex europaeus*

Cwytros *Cornus sanguinea*

Ffos sych J2.6.

Ffos sych yn llawn o laswelltir niwtral wedi'i led-wella a phrysgwydd trwchus – cyfansoddiad rhywogaethau a ddisgrifir yn y math o gynefinoedd a grybwyllwyd uchod.




Atodiad B – mapiau cynefinoedd

Map Dosbarthu Cynefin Treforys (2025)

- Nodyn targed
- J.1.2 Glaswelltir amwynder
- J.1.4 Llwyn a gyflwynwyd
- B.2.2 Glaswelltir Niwtral – Wedi'i led-wella
- J.2.1 Gwrych Cyfan – Tlawd mewn Rhywogaethau
- A.2.1 Prysgoed – Parhaus Trwchus
- A.3.3 Parcdir gyda choed gwasgaredig – Cymysg



Lluniau Cydraniad Uchel 60m
Lluniau Cydraniad Uchel 30cm
Lluniau Cydraniad Isel 15m
World Imagery



1:5,003

Map Dosbarthu Cynefin y Safle Diwydiannol (2025)

-  Nodyn targed
-  J.2.6 Ffos sych
-  J.1.2 Glaswelltir amwynder
-  J.1.4 Llwyn a gyflwynwyd
-  B.2.2 Glaswelltir Niwtral – Wedi'i led-wella
-  J.2.1 Gwrych Cyfan – Tlawd mewn Rhywogaethau
-  A.2.1 Prysgoed – Parhaus Trwchus
-  A.3.3 Parcdir gyda choed gwasgaredig – Cymysg
-  G.1 Dŵr llonydd
-  C.3.1 Coeden gynefinol dal



Lluniau Cydraniad Isel 15m
Lluniau Cydraniad Uchel 60m
Lluniau Cydraniad Uchel 30cm
World Imagery

0 0.01 0.02 0.04 mi
0 0.01 0.03 0.06 km

Microsoft, Vantor

1:1,258



Nodiadau targed cynefin

Prif safle

Nod targed (TN)	Disgrifiad
TN1	Dwy goeden binwydd â'u cyflwr yn dirywio.
TN2	Ardal o laswelltir amwynder gyda choed gwasgaredig yn tyfu y tu allan i ddaliadaeth eiddo'r DVLA ond yn cael ei rheoli gennym. Mae'r un rhywogaethau'n bresennol ag ar gynefinoedd cysylltiedig y DVLA. Mae yna hefyd glwstwr bach o brysgwydd trwchus gydag eiddew a mieri yn tyfu drosto.
TN3	Ynn yn dangos arwyddion o glefyd gwywiad ynn.
TN4	Llwyfen Seisnig (<i>Ulmus procera</i>) o dan Orchymyn Cadw Coed (TPO) gydag eiddew drosti â'i chyflwr yn dirywio.
TN5	Pentwr bach o rwbel o fewn llystyfiant, a allai gynnig cynefin i ymlusgiaid.
TN6	Ardal o fewn prysgwydd a choed trwchus gyda phacbys y coed (<i>Vicia sylvatica</i>) sy'n gyffredin yn lleol, - rhywogaeth sy'n ddangosydd coetir hynafol.
TN7	Llwyn ceirchen goch (<i>Crocsmia x crocosmiiflora</i>) - rhywogaeth estron ymledol ar Atodlen 9.
TN8	Coeden sengl (pinwydd du) o fewn y maes parcio gyda TPO arni.
TN9	Rhes o goed aeddfed wedi'u cynnwys mewn TPO.
TN10	Rhywogaeth Creigafal (<i>Cotoneaster</i> sp.) nad yw wedi'i nodi i lefel rhywogaeth ac a allai fod yn un o'r rhywogaethau ar Atodlen 9.
TN11	Pentwr o foncyffion a allai gynnig cynefin i ymlusgiaid ac infertebratau.
TN12	Cribau San Ffraid (<i>Stachys officinalis</i>) - rhywogaeth sy'n ddangosydd coetir hynafol.
TN13	Tegeirianau cors deheuol (<i>Dactylorhiza praetermissa</i>) yn tyfu rhwng planhigion phormium addurnol.
TN14	Blwch adar â'i gyflwr yn dirywio ar goeden binwydd.
TN15	Blwch adar ar fasarnen Norwy (<i>Acer platanoides</i>).

Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol ac Ystadau

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth DVLA
2025–2030

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL
gov.uk/dvla